LC607

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 10) [a Darpariaethau Trosiannol] (Cymru) 2002**

Mae hwn yn dod â darpariaethau i rym mewn perthynas â rheoleiddio canolfannau preswyl i deuluoedd, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, asiantaethau maethu a gwasanaethau mabwysiadu lleol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ymddengys bod dau wall drafftio a gwahoddir y Cynulliad i roi sylw iddynt.

1. Nid yw'r teitl fel y'i pennwyd yn y ddarpariaeth enwi yn erthygl 1(1) (ac fel y'i hargraffwyd ar frig tudalen 5) yn cyd-fynd â'r teitl fel y'i hargraffwyd ar frig tudalen 1. O gofio bod y gorchymyn yn cynnwys darpariaeth drosiannol, cymerir yn ganiataol mai'r bwriad oedd y dylai'r pennawd yn yr erthygl enwi (ac felly ar frig tudalen 5) fod ar yr un ffurf a'r pennawd ar dudalen 1.
2. Gan fod y gorchymyn yn cynnwys darpariaeth drosiannol, dylid cynnwys isadran (7) adran 118 wrth enwi pwerau.

Gellid cywiro'r materion hyn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

**Sylwadau**

Yn y nodyn ynghylch gorchmynion cychwyn cynharach ymddengys y dylai'r cyfeiriad at adran 9 ("gweddill") ac adran 10(2)-(7) nodi mai gorchymyn rhannol yn unig fu'r gorchymyn cychwyn.

i

Yn erthygl 3, ymddengys bod "be" yn llinell 4 o'r testun Saesneg yn ddiangen.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

21 Ionawr 2003